

Post Brenhinol

Royal Mail®

Ffurflen Hawlio Post Rhyngwladol wedi'i golli neu ei ddifrodi

Stamp y Swyddfa

Dyddiad agor D D M M B B

Rhif SR

Adran 1: Gwybodaeth bwysig am ein proses hawlio ar gyfer Colled a Difrod

Cyn llenwi'r ffurflen hon dylech fynd i'n gwefan **www.royalmail.com**, i gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch ynglŷn â thelerau ac amodau cynnyrch y Post Brenhinol a ddefnyddir i anfon eich eitem -a lefel yr iawndal sydd ar gael - neu os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am ein safonau ymdrin â chwynion. Os nad oes modd i chi ddefnyddio'r rhyngrwyd, gallwch gael yr wybodaeth sydd ei hangen yn ein llyfryn 'Ein gwasanaethau', sydd ar gael mewn unrhyw Swyddfa Bost®.

Ynglŷn â'r ffurflen hon Mae modd defnyddio'r ffurflen hon i gyflwyno cais am iawndal. Ni fydd iawndal yn cael ei ystyried onid oes gennych yr holl dystiolaeth a gwybodaeth sydd eu hangen mewn perthynas â'ch hawliad.

Adran 2: Gwybodaeth a thystiolaeth ofynnol ar gyfer hawliadau am golled a difrod. Rhaid i chi lenwi'r rhestr wirio hon

Ar gyfer unrhyw hawliad rhaid i ni gael o leiaf yr wybodaeth a ganlyn:

- ☐ Enw a chyfeiriad llawn yr anfonwr a'r sawl a ddylai dderbyn yr eitem
- ☐ Faint a dalwyd am y costau post ac enw'r cynnyrch Post Brenhinol a ddefnyddiwyd
- ☐ Lle a phryd y cafodd yr eitem ei phostio
- ☐ Rhif cyfeirnod yr eitem - ar gyfer eitemau Signed Rhyngwladol, Tracked Rhyngwladol a Tracked a Signed Rhyngwladol yn unig
- ☐ Disgrifiad o'r cynnwys
- ☐ Prawf o'r postio **gwreiddiol**, e.e. derbynneb Swyddfa'r Post® (tystysgrif postio), derbynneb tâl post ar-lein (wedi'i stampio mewn Swyddfa'r Post®) neu gopi o'r Llyfr Docedi
- ☐ Prawf o'r gwerth **gwreiddiol** os ydych chi'n hawlio am y cynnwys, e.e. derbynneb til, cyfriflen banc, etc. (gweler adran 8 i gael rhagor o fanylion)
- ☐ Yr eitem a'r deunydd pacio a ddifrodwyd* (ar gyfer hawliadau am ddifrod yn unig ac os yw'n ddiogel gwneud hynny - gweler y nodyn isod)
- ☐ Yn ogystal â'r uchod, rhaid i hawliadau eBay gynnwys tudalen werthu'r eitem a chyfriflen Paypal neu fanc/cerdyn credyd
- ☐ rhif eitem eBay (rhowch hwn yn adran 7)

Cofiwch! Heb yr wybodaeth angenrheidiol a'r dystiolaeth ofynnol hyn, ni allwn ystyried iawndal. Rhaid i ni gael digon o dystiolaeth i brofi bod y Post Brenhinol wedi cario'r eitem a'n bod wedi methu diwallu ein haddewid ynglŷn â'r gwasanaeth. Rydym yn argymell eich bod yn cadw copïau personol o unrhyw ddogfennau a anfonir gennych gyda'ch hawliad.


Adran 3: Gwneud Hawliad

Rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon i gyd, gan ddefnyddio'r rhestr wirio yn adran 2 i'ch helpu. Bydd methu llenwi'r holl adrannau perthnasol a darparu'r dogfennau gofynnol yn golygu oedi ynglŷn â'ch hawliad a/neu gallai gael ei wrthod.
Ni fyddwn yn trafod hawliadau ond pan fo'r eitem wedi'i phostio gyda'r Post Brenhinol. Os cafodd eitem ei phostio gyda gweithredwr post arall, a'i thrafod ganddo, neu ei hanfon o'r tu allan i'r DG, ni fydd yn gymwys ar gyfer iawndal gan y Post Brenhinol. Nid oes raid i'r Post Brenhinol dalu iawndal os na ddiwallwyd amodau'r postio neu delerau ei wasanaethau, e.e. rhaid i bob eitem werthfawr, gan gynnwys arian a gemwaith, gael ei hanfon gan ddefnyddio naill ai gwasanaethau Signed Rhyngwladol (International Signed For™ yn flaenorol), Tracked Rhyngwladol (Airsure® yn flaenorol) a Tracked a Signed Rhyngwladol. Ceir cyfyngiadau hefyd ar anfon eitemau fel arian parod i rai cyrchfannau, ac mae'n rhaid i eitemau gael eu pacio yn unol â chanllawiau'r Post Brenhinol. **Nid ydym yn gallu derbyn hawliadau am eitemau post Rhyngwladol sy'n destun oedi.**
Pryd i hawlio Ni allwn dderbyn hawliad am golled oni fydd 20 diwrnod gwaith (ar gyfer eitemau sy'n cael eu postio i Ewrop) neu 25 diwrnod gwaith (ar gyfer eitemau i weddill y byd) wedi mynd heibio ers pan oedd yr eitem i fod cael ei dosbarthu. Mae'n rhaid cyflwyno pob cais o fewn 6 mis ar ôl postio'r eitem.
*Os ydych chi'n hawlio gwir gost eitemau a gafodd eu difrodi neu sydd â rhan o'u cynnwys ar goll, dylech ddarparu'r deunydd pacio gwreiddiol ynghyd â'r eitem. Fodd bynnag, os yw'r rhain yn fawr iawn neu'n anniogel i'w postio gallwch ddarparu tystiolaeth ffotograffig - ond cofiwch beidio â gwaredu'r gwreiddiol oherwydd gall y byddwn eisiau'u harchwilio. Rydym hefyd yn argymell eich bod yn tynnu llun o'r eitem a'r deunydd pacio cyn eu postio atom. Os nad yw'r cyfan o'r deunydd pacio a'r cynnwys yn cael ei ddarparu neu ei gadw, gall na fydd iawndal yn cael ei dalu.
Ar ôl ei llenwi i gyd, ei llofnodi a'i dyddio, dylid anfon y ffurflen hawlio a'r holl dystiolaeth ategol i: **Freepost/Rhadbost GWASANAETHAU CWSMERIAID Y POST BRENHINOL.** Unwaith y byddwn yn derbyn eich hawliad, gall gymryd hyd at 90 diwrnod i ymchwilio ac ymateb yn llawn, felly rhowch yr amser hwn i ni ar gyfer ymchwilio cyn i chi gysylltu â ni eto.

Adran 4: Datganiad

Mae fy eitem (ticiwch un blwch yn unig) ☐ Ar goll ☐ Wedi'i difrodi ☐ Wedi'i dosbarthu, â pheth/y cyfan o'r cynnwys ar goll

Rwy'n deall y gallai hawliad ffug am iawndal arwain at erlyniad troseddol. Rwy'n datgan fod yr wybodaeth a roddais ar y ffurflen hon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, yn gywir a geirwir.
Rwyf hefyd yn addo y byddaf yn rhoi gwybod ar unwaith i Grŵp y Post Brenhinol Cyf os ceir hyd i unrhyw eitemau a gollwyd, ac y byddaf yn ad-dalu i Grŵp y Post Brenhinol Cyf unrhyw arian a dalwyd yn iawndal am yr eitemau hyn.



Dyddiad D D M M B B **Llofnod**

Sylwch, os gwelwch yn dda, wrth wneud cais am iawndal rydych chi'n caniatáu defnyddio'ch enw a chyfeiriad ar gyfer gwneud ymholiadau i'r cais

Byddwch cystal â llenwi'r ffurflen hon yn Gymraeg a defnyddio inc **du** a PHRIFLYTHRENNAU yn unig

Adran 5: Manylion Cyswllt Ar gyfer hawliadau iawndal, byddwch cystal â darllen a llofnodi adrannau 1-4 cyn llenwi'r ffurflen hon

Ai chi yw'r Anfonwr ☐ **neu'r** ☐ **Derbynnydd (ticiwch, os gwelwch yn dda)**

Beth yw'ch enw a chyfeiriad?

Teitl ____ Enw Cyntaf ____

Cyfenw ____

Dyddiad geni D D M M B B

Cwmni ____

Rhif cofrestru TAW (os yw'n berthnasol) ____

Cyfeiriad ____

Côd Post ____

Ffôn (dydd) ____

Symudol ____

E-bost ____

At bwy anfonwyd yr eitem/gan bwy y cafwyd yr eitem?

Teitl ____ Enw Cyntaf ____

Cyfenw ____

Cwmni ____

Rhif cofrestru TAW (os yw'n berthnasol) ____

Cyfeiriad ____

Côd Post ____ Gwlad ____

Ffôn (dydd) ____

Symudol ____

E-bost ____

Adran 6: Manylion postio

Pa wasanaeth a ddefnyddiwyd?

☐ Safonol Rhyngwladol ☐ Economi Rhyngwladol ☐ Tracked Rhyngwladol ☐ Signed Rhyngwladol

☐ Tracked and Signed Rhyngwladol

Cyfeirnod Olrhain ____

Post Ffrancio/Mesurydd – Cofnodwch eich rhif dei unigryw ____ (mae hwn ar eich argraff brintiedig – 10 nodyn fel arfer)

Pryd gafodd yr eitem ei phostio?

Amser : am/pm **Dyddiad** D D M M B B

Beth oedd cost y post? **£ : c**

Lle gafodd yr eitem ei phostio?

☐ Cangen o Swyddfa'r Post Pa gangen? ____

Tref ____

☐ Blwch Postio Lleoliad y Blwch Postio ____

☐ Casgliad Busnes

Y dyddiad pan ddosbarthwyd yr eitem (ac eithrio hawliadau am golled) **Dyddiad** D D M M B B

Adran 7: Disgrifiad o'r eitem

Byddwch cystal â llenwi'r adran a ganlyn â chymaint o fanylion ag y bo modd. Er enghraifft, cynhwyswch y math o eitem, ei brand a'i theitl yn ogystal â disgrifiad ohoni. Defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen. Os ydych chi'n hawlio am fwy nag un eitem, rhowch gost pob eitem ar wahân.

Cynnwys	Cost	Disgrifiad: Manylion llawn am yr eitem, gan gynnwys maint, siâp a deunydd pacio

Adran 8: Beth yw gwerth eich eitem?

Gallwch hawlio gwir gost yr eitem i chi, h.y. beth oedd cost yr eitem i chi ei chaffael, ei phrynu neu ei gwneuthur (neu ei hatgyweirio os cafodd ei difrodi), hyd at uchafswm o'i gwerth ar y farchnad neu'r iawndal sy'n daladwy ar gyfer y gwasanaeth a ddefnyddiwyd, pa un bynnag yw'r lleiaf.

Enghraifft: Prynodd Mrs Smith (y prynwr olaf) bâr o jîns a thalodd £25 amdanynt. Os yw'n postio'r jîns ac os ydynt yn mynd ar goll, gall hawlio'r gost iddi, h.y. £25. Mae'r siop (manwerthwr) sy'n gwerthu'r jîns yn eu prynu gan y gwneuthurwr am £15. Os ydynt yn cael eu postio gan y manwerthwr ac yn mynd ar goll, gall y manwerthwr hawlio'r gost o gaffael y jîns, h.y. £15. Mae'r ffatri (gwneuthurwr) sy'n cyflenwi'r siop yn gwneud y jîns am £10. Os yw'r gwneuthurwr yn postio'r jîns ac os ydynt yn mynd ar goll, gall hawlio'r hyn a gostiodd i'w gwneuthur, h.y. £10.

Beth yw cost gwirioneddol eich eitem?

£ ____

Rhaid darparu tystiolaeth wreiddiol o'r gwerth a'r postio os ydych yn hawlio iawndal am wir gost eitem.

Er mwyn gwneud cais am y ffurflen hon mewn Print Bras, byddwch cystal â ffonio Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 03457 740 740. Os ydych chi'n fyddar neu'n drwm eich clyw, byddwch cystal â defnyddio ein gwasanaeth ffôn testun ar 03456 000 606.

© Mae'r Post Brenhinol, y Groesffurf a'r lliw coch yn nodau masnach cofrestredig i Grŵp y Post Brenhinol Cyf. Cofrestrwyd Grŵp y Post Brenhinol Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif 4138203. Swyddfa gofrestredig: 100 Victoria Embankment, Llundain, EC4Y 0HQ.
© Grŵp y Post Brenhinol Cyf 2015. Cedwir pob hawl.